# FFRIND A DOCTOR!

Pan oedd Elin yn 18 oed dywedodd y doctoriaid y byddai'n lwcus pe bai'n gweld ei phen-blwydd yn un ar hugain. Mae ganddi Fath 1 o glefyd siwgwr sy'n golygu ei bod yn cael trafferth i gadw lefelau siwgwr y corff yn gyson. Ni fydd yn cael unrhyw arwyddion fod lefelau siwgwr ei chorff yn gostwng yn rhy isel gan arwain at *hypo*. Os nad yw'n cael ei reoli gall *hypo* arwain at ffitiau, mynd yn anymwybodol a hyd yn oed farwolaeth.

Pan gafodd ddaeargi – a'i galw yn Cadi – teimlai Elin nad oedd y ci yn ei hoffi oherwydd byddai'n ei brathu ac yn rhedeg i ffwrdd oddi wrthi. Ond yna sylweddolodd ei bod yn cael *hypo* wedi iddi wneud hynny. Cysylltodd Elin â'r elusen Cŵn sy'n Synhwyro Clefydau a chafodd Cadi ei hyfforddi i rybuddio Elin pan fyddai ar fin cael *hypo*.

Pan fydd Cadi yn synhwyro bod lefelau siwgwr Elin yn beryglus o isel bydd yn eistedd a syllu ar Elin. Wedyn bydd yn chwarae gyda'i bysedd. Os na fydd Elin yn cymryd sylw bydd yn mynd am yn ôl ac yn cyfarth hyd nes i Elin brofi ei gwaed a bwyta neu yfed rhywbeth.

Rai blynyddoedd yn ôl darganfu Claire Guest, arbenigwr ar ymddygiad anifeiliaid, a'r llawfeddyg esgyrn, John Church, fod cŵn yn gallu darganfod cancr y bledren o samplau o wrin. Gan fod trwynau cŵn 100 gwaith mwy sensitif na rhai pobl, gallant arogli'r newidiadau cemegol lleiaf.

Ei greddf a arweiniodd Cadi i rybuddio Elin. Mae angen mwy o hyfforddiant ar gŵn eraill. Byddant yn cael tri mis o hyfforddiant ar wahaniaethu rhwng gwahanol arogleuon yng nghartref gwirfoddolwr neu arbenigwr ar glefyd



siwgwr.Yn ystod y rhan gyntaf defnyddir defnyddiau sydd wedi eu trwytho yn arogl corff person sydd ar fin cael *hypo*. Yr ail ran ydy bod y ci yn byw gyda'r person sy'n dioddef o afiechyd a'r hyfforddwyr yn ei ddysgu i rybuddio'r un sydd ar fin cael *hypo*.

Y ci cyntaf yn y byd i gael ei hyfforddi i gynorthwyo person gydag afiechyd Addison oedd Coco. Arferai Karen fynd yn anymwybodol ddwywaith neu dair yr wythnos ac yn aml treuliai wythnosau yn yr ysbyty. Yn dilyn pedwar mis o hyfforddiant mae Coco yn ei rhybuddio trwy lyfu ei dwylo ac nid yw wedi bod yn yr ysbyty ers iddi ei gael ddwy flynedd yn ôl. 'Bydd Coco yn cario fy mag pigiadau yn ei fest meddygol pan fyddwn allan a byddaf yn teimlo'n ddiogel.'

Mae Elusen Clwb Cenel wedi rhoi £25,000 i Cŵn sy'n Synhwyro Clefydau ers 2008.

Gall cŵn warchod plant mor ifanc â 5 i 6 oed rhag mynd i *hypo*.

Mae dyn sy'n magu sbaniels wedi rhoi dau gi – Rigel (un o'r sêr mwyaf llachar yn yr awyr) a Sirus (Seren y Ci) am ddim i Cŵn sy'n Synhwyro Clefydau.

Mae Cŵn sy'n Synhwyro Clefydau wedi cychwyn ymgyrch 'Arogli i achub bywyd' i godi arian i hyfforddi cŵn.

Mae'n costio £10,000 i hyfforddi ci a'r gobaith yw hyfforddi 50 ci yn y tair blynedd nesaf.